
## Gweithgaredd siapiau

Beth am edrych ar wynebau siapiau pan fyddwch gartref neu allan?

- Gofynnwch i'ch plentyn – beth yw siâp y plât, y drych, mat y bath, lliain sychu llestri, y ffenestr, y drws, y golau traffig coch ac yn y blaen.
- Dewiswch siâp yr wythnos, e.e. sgwâr. Sawl un o'r siapiau hyn gall eich plentyn eu 'nabod yn ystod yr wythnos gartref a phan fyddwch allan?




## Gêm ddis

Bydd angen dis 1-6, papur a phensil.

- Cymerwch eich tro.
- Dewiswch rif rhwng 1 a 10 a'i ysgrifennu.
- Taflwch y dis a dwedwch beth yw rhif y dis.
- Cyfrifwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng y rhif dewisol a rhif y dis, e.e. os oeddech wedi ysgrifennu 2 a'r dis yn dangos 5, y gwahaniaeth yw 3.

Gallech hefyd dynnu llun llinell rif i helpu eich plentyn weld y gwahaniaeth rhwng y ddau rif.




## Beth yw dy oed?


Dechreuwch gydag oedran eich plentyn. Gofynnwch:

Beth fydd dy oed pan fyddi di 1 flwyddyn yn h¥n?
Beth oedd dy oed y llynedd?
Beth fydd dy oed 10 mlynedd o heddiw?

ac yn y blaen.

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 1

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn1

**Erbyn diwedd Blwyddyn 1, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu…**

- [ ] Cyfrif o leiaf 20 o bethau cyffredin.
- [ ] Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul un, gan ddechrau o rif bach.
- [ ] Cyfrif ymlaen ac yn ôl fesul deg (sero, deg, dau ddeg, tri deg…)
- [ ] Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at o leiaf 20.
- [ ] Rhoi'r rhifau 0 i 20 yn eu trefn.
- [ ] Defnyddio'r geiriau *cyntaf, ail, trydydd* ...
- [ ] Rhoi rhif o 10 i 20, dweud y rhif sydd 1 yn fwy, 1 yn llai, 10 yn fwy, 10 yn llai.
- [ ] Defnyddio'r geiriau *adio, swm, cyfanswm, tynnu, gwahaniaeth rhwng* …mewn sefyllfaoedd ymarferol.
- [ ] Gwybod ar gof yr holl barau rhif sy'n gwneud10, e.e. 3 + 7, 8 + 2.
- [ ] Adio a thynnu dau rif o dan10.
- [ ] Cymharu dwy eitem neu gynhwysydd, a dweud p'un yw'r hiraf, y byrraf, neu'r trymaf neu'r ysgafnaf, neu p'un sy'n dal y mwyaf.
- [ ] Enwi a disgrifio siapiau fflat a solid syml, e.e. *Mae tri chornel ganddo.*

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn1.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif hyd at 20 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 12. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Rhifau cyfrin

0123456789

- Ysgrifennwch y rhifau 0 i 20 ar bapur.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddewis rhif ar y papur yn gyfrinachol. Yna, gofynnwch gwestiynau iddi/ iddo i geisio darganfod beth yw'r rhif cyfrin e.e.

  Ydy e'n llai na10? Ydy
  e rhwng 10 a 20?
  Oes 5 ynddo?

  Dim ond 'ydy' neu 'nac ydy' gall y plentyn ateb.
- Pan fyddwch wedi dyfalu beth yw'r rhif, eich tro chi fydd dewis rhif. Bydd eich plentyn yn gofyn y cwestiynau.

Er mwyn cael gêm haws, defnyddiwch rifau hyd at 10. Am gêm fwy anodd, defnyddiwch 5 cwestiwn yn unig, neu defnyddiwch rifau sy'n fwy.